Hawdd ei ddeall

# Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




Nodiadau o'r cyfarfod dydd Mercher 4 Mawrth 2026.



Roedd y cyfarfod ar-lein ar Zoom.

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Hope you are doing well.  I need a favour, if you have some time to do it please.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl mewn blwch o dan y gair. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 15**.



# Pobl ddaeth i'r cyfarfod:

- Sioned Williams AS – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- Sam Williams – Anabledd Dysgu Cymru, cyd-ysgrifennydd
- Adele Rose-Morgan – Rhiant
- Andrew Jenkins - Y Senedd
- Annette Nichols – Cwmni
- Beth Rees – Anabledd Dysgu Cymru
- Christina Welsh – Natspec
- Clare Lucignoli – Rhiant-ofalwr
- Davina Carey-Evans – Ymddiriedolaeth Cronfa Deuluol
- Gerraint Jones-Griffiths – Anabledd Dysgu Cymru
- Gillian Eastwood – Cartrefi Nsi Ltd
- Gwen Anslow – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- Humie Webbe – Unig fasnachwr
- Jac Hughes – Roaring Mon
- James Dash – Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- Jenny Mushiringani Monjero – Llais
- Julian Hallett – Cymdeithas Syndrom Down

- Kelly Stuart – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Lucy Hinksman – Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- Marg McNiel – Gweld o amgylch Prydain
- Megan Lewis – Sgowtiaid Cymru
- Ritchie Wood – Gofal Principality Cyf
- Sarah Washbrook – Rhiant
- Simon Morris – Dawns Rubicon
- Sion Jones – Mencap Cymru
- Victoria Waller – Ffrindiau Gigiau Cymru
- Wayne Crocker – Mencap Cymru



## Pobl oedd wedi dweud nad oedden nhw'n gallu dod i'r cyfarfod:

- **Sarah Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-ysgrifennydd
- **Mark Isherwood** – Aelod o'r Senedd

# 1. Croeso a chyflwyniadau



Mae Sioned Wiliams yn Aelod o'r Senedd a hi ydy **Cadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol.

**Cadeirydd** y grŵp ydy'r person sy'n gyfrifol am y cyfarfodydd.




- Croesawodd Sioned bawb i'r cyfarfod.

# 2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol



Dechreuodd Sioned y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ond dywedodd na fyddai unrhyw bleidlais dros Gadeirydd na chyd-Ysgrifenyddion y tro yma.





Mae hyn oherwydd mai dyma'r grŵp trawsbleidiol olaf cyn etholiad y Senedd ar 7 Mai.




Diolchodd Sioned i'r grŵp am ei gefnogaeth. Diolchodd i Sam a Sara am eu gwaith. Mae hi'n credu y dylai'r grŵp barhau ar ôl yr etholiadau ym mis Mai.

# 3. Adroddiad blynyddol




Fe fydd y cyd-ysgrifennydd Sam Williams yn ysgrifennu adroddiad blynyddol. Fe fydd yn dangos gwaith a beth mae'r grŵp wedi ei wneud.



Gofynnodd Wayne sut rydyn ni'n gallu dysgu beth oedd yn gweithio'n dda yn y grŵp. Mae'r aelodau yn gallu rhannu syniadau. Fe fydd Sam yn rhoi hyn yn y crynodeb o'r adroddiad blynyddol.

# 4. Cyflwyniad am addysg gynhwysol – rhiant Adele Rose-Morgan



Siaradodd Adele am ei mab Rhys. Mae hi'n dweud bod cymdeithas, addysg a staff meddygol wedi canolbwyntio ar beth mae'n methui ei wneud. Dim ar beth mae'n gallu ei wneud. Roedd hi'n teimlo nad oedd yn cael ei weld.



Mewn addysg cafodd ei wahanu oddi wrth blant eraill. Cafodd ei symud o ysgol i'r ysgol. Roedd Adele wedi colli hyder yn y system.




Fe wnaeth Adele ddysgu mwy am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Fe wnaeth ddysgu am hawliau ac addysg gynhwysol.
Roedd yn gweld ei fod yn cael ei adael i lawr.



Addysg gynhwysol ydy pan fydd plant ag anghenion ychwanegol yn cael eu haddysgu gyda'r holl blant eraill. Heb eu gwahanu.



Fe wnaeth Adele ymladd dros hawliau ei mab i gael ei gynnwys mewn addysg. Ond roedd hi'n cael ei hystyried yn anodd. Roedden nhw'n dweud wrthi na fyddai Rhys yn gwneud ei TGAU. Ond fe wnaeth a llawer mwy.



Dywedodd Adele fod cynhwysiant yn meddwl teimlo fel eich bod chi'n perthyn ac yn cymryd rhan. Peidio â chael eich cadw ar wahân.

# 5. Cyflwyniad - Stori teulu gan y rhiant Sarah Washbrook



Siaradodd Sarah am ei mab Ivor. Mae ganddo gyflwr prin o'r enw Syndrom Angelman.



Mae Ivor yn mynd i **ysgol brif ffrwd**. Mae hyn yn meddwl nad ydy e'n cael ei wahanu oddi wrth y plant eraill. Mae'n anodd ond mae wrth ei fodd yn bod o gwmpas pobl.



Mae **ysgol brif ffrwd** yn ysgol reolaidd lle mae'r rhan fwyaf o blant yn mynd i ddysgu gyda'i gilydd. Mae hyn yn wahanol i ysgol arbennig sydd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol yn unig.



Doedd Sarah ddim eisiau cadw Ivor ar wahân i'r plant eraill.



Roedden nhw wedi cael eu cefnogi gan yr ysgol a'r cyngor lleol.



Mae gan Ivor gefnogaeth 1-i-1 yn ei ddosbarth erbyn hyn. Mae'n caru ei ddosbarth prif ffrwd. Mae'n dilyn beth mae gweddill y dosbarth yn ei wneud. Ond gydag ychydig o newidiadau.



Fe wnaeth Sarah roi sgwrs i'r plant yn yr ysgol. Siaradodd am ffyrdd y mae pobl yn cyfathrebu pan nad ydyn nhw'n siarad. Ac roedd hi'n siarad am rai o'r termau meddygol erailsydd yn cael eu defnyddio.



Dywedodd bod rhai pethau yn gallu cael eu gwneud yn well. Mae angen mwy o gefnogaeth y tu allan i'r ysgol. A mwy o gefnogaeth i staff a gofalwyr.

# 6. Cwestiynau



Diolchodd Sioned i Adele a Sarah am eu sgyrsiau. Gofynnodd a oedd gan y grŵp gwestiynau.



Gofynnodd Marg McNeil fydden ni'n hoffi bod yn rhan o fideos am drafnidiaeth hygyrch. Fe fyddai'r ddau yn hoffi dysgu mwy.



Diolchodd Davina Carey-Evans iddyn nhw am rannu a siarad. Gofynnodd a fyddai Sarah yn gallu rhoi sgwrs i rieni. Dywedodd Sarah y byddai'n edrych i mewn i hyn.



Gofynnodd Jac Hughes beth allai staff ei wneud yn fwy I stopio bwlio mewn ysgolion. Dywedodd Jac nad oedd staff wedi gwneud digon i stopio hynny rhag digwydd iddo. Dywedodd Sarah fod angen i athrawon gadw llygaid ar bethau. A siarad mwy gyda phlant a theuluoedd.



Siaradodd Victoria Waller am ei phrofiad o'r ysgol. Roedd hi'n teimlo nad oedd cefnogaeth pan rydych chi'n cael eich bwlio. Mae angen gwneud mwy i wella pethau.




Dywedodd Wayne y dylid defnyddio adeiladau ysgol i ddod â theuluoedd plant anabl at ei gilydd.



Gofynnodd Gerraint Jones-Griffiths am newidiadau mae ysgolion yn gallu eu gwneud. Dywedodd Adele os fydden nhw'n gynhwysol o'r dechrau fyddai dim angen hyn.




Dywedodd Sioned y bydd yn siarad â gweinidogion am restrau aros a'r angen am fwy o gefnogaeth.



Fe fydd Sioned yn siarad â Sam am y defnydd o ysgolion ar gyfer clybiau a'r gymuned.

# 7. Unrhyw fater arall




Diolchodd Sam i Sioned am ei holl waith fel Cadeirydd y grŵp.

# Geiriau Anodd

## Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp ydy'r person sy'n gyfrifol am y cyfarfodydd.

## Ysgol brif ffrwd

Mae ysgol brif ffrwd yn ysgol reolaidd lle mae'r rhan fwyaf o blant yn mynd i ddysgu gyda'i gilydd. Mae hyn yn wahanol i ysgol arbennig sydd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol yn unig.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247